
age Cymru

Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

# Gadewch gymorth a chyfeillgarwch drwy rodd yn eich ewyllys



# Gall rhodd yn eich ewyllys ein helpu ni i fod yno, ddydd ar ôl dydd.

Ni ddylai neb deimlo'n unig a bregus yn hwyrach yn eu bywydau. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr nad ydy pobl hŷn yn cael eu hanghofio neu eu gadael i frwydro drwy fywyd ar eu pen eu hunain. Rydyn ni yma i wrando, cefnogi, cynghori a helpu pobl i deimlo'n annibynnol a diogel yn eu cartrefi eu hunain. **Drwy adael rhodd i ni yn eich ewyllys, gallwch chi ein helpu ni i fod yno i bobl fel Huw, Emlyn a Gwen.**

## Byddwn ni yma i gadw cwmni i Huw




Ar ôl symud ar draws y wlad i fod yn nes at ei deulu, roedd Huw'n teimlo ar goll heb ei grŵp o ffrindiau agos.

Heb fath o gylch cymdeithasol, buan y collodd Huw ei annibyniaeth a phrin y byddai'n gadael y tŷ. Roedd yn teimlo'n unig iawn ac yn isel ei ysbryd.

Ond ar ôl ymweld â'i Age Cymru lleol, daeth Huw i wybod am y gwahanol grwpiau a gweithgareddau oedd ar gael.

Ymhen dim, fe wnaeth ffrindiau newydd yn yr ardal ac roedd fel person newydd. Mae wedi newid ei fywyd yn llwyr.

## Byddwn ni yma i roi cyngor i Emlyn



Pan dorrodd system wres Emlyn, ar adeg pan oedd ei hangen fwyaf arno, roedd yn pryderu'n arw.

Fe gafodd Emlyn gyngor gennym am wahanol grantiau effeithlonrwydd ynni i helpu gyda chostau atgyweirio neu ddiweddaru ei system wres ac fe gafodd wiriad budd-daliadau gennym, i wneud yn siŵr ei fod yn hawlio popeth y mae ganddo hawl iddo. Fe wnaethon ni ei gyfeirio at ei awdurdod lleol i gael gwresogyddion dros dro.

## Byddwn ni yma pan fydd Gwen eisiau siarad



Pan fu farw ei gŵr a'i merch o fewn ychydig flynyddoedd i'w gilydd, yn sydyn iawn roedd Gwen ar ei phen ei hun ac roedd yn ergyd ofnadwy iddi. Trodd at Gyngor Age Cymru am help. Gwrandawodd Cyngor Age Cymru arni ac, ar ôl holi beth oedd ei diddordebau, fe wnaethon nhw ei rhoi mewn cysylltiad â grwpiau yn ei hardal.

Gallwch chi helpu i wneud yn siŵr y **byddwn ni yma bob amser** i bobl fel Huw, Emlyn a Gwen. Trowch y dudalen i gael gwybod sut.

## Sut i adael rhodd i ni

Bydd rhodd i ni yn eich ewyllys yn helpu pobl hŷn i deimlo'n ddiogel, bod cymorth ar gael iddyn nhw ac yn dawel eu meddwl y bydd ganddyn nhw rywun i droi ato bob amser.

## Dydw i heb ysgrifennu fy ewyllys eto. Pa mor bwysig ydyw fy mod yn ysgrifennu un a pha mor gymhleth ydyw?

Mae ysgrifennu ewyllys yn ffordd bwysig iawn o wneud yn siŵr fod eich dymuniadau'n cael eu parchu wedi eich marwolaeth. Does dim angen i'r broses fod yn un gymhleth ac mae'n golygu y bydd hi'n hawdd i'ch anwyliaid wneud yn ôl eich dymuniadau. Mae gennym lawer o wybodaeth i'ch helpu i gynllunio ac ysgrifennu eich ewyllys.

## Sut alla i ofalu am fy nheulu a gadael rhodd i Age Cymru?

Rydyn ni'n deall eich bod eisiau gofalu am eich anwyliaid yn gyntaf. Ond ar ôl gofalu am eich teulu a'ch ffrindiau, gall hyd yn oed canran fechan o'r hyn sydd ar ôl wneud gwahaniaeth mawr i bobl fydd ein hangen ymhen blynyddoedd.

## Pa mor hawdd ydy gadael rhodd i Age Cymru yn fy ewyllys?

Mae'n hawdd iawn cynnwys rhodd i ni yn eich ewyllys. Os oes gennych chi ewyllys eisoes, efallai na fydd angen ichi ei hailysgrifennu. Gall person proffesiynol, cymwys (e.e. cyfreithiwr) esbonio ichi sut mae ychwanegu diwygiad (sef codisil).

# Os ydych chi'n dymuno gadael rhodd i Age Cymru, dyma'r wybodaeth y bydd arnoch ei hangen:

## Age Cymru Cenedlaethol

Age Cymru – elusen gofrestredig, rhif 1128436

## Partner lleol Age Cymru

Age Cymru Afan Nedd – elusen gofrestredig, rhif 1144627

Age Cymru Ceredigion – elusen gofrestredig, rhif 1155813

Age Cymru Gwent – elusen gofrestredig, rhif 1155903

Age Cymru Gwynedd a Môn – elusen gofrestredig, rhif 1143587

Age Cymru Powys – elusen gofrestredig, rhif 1174222

Age Cymru Sir Gâr – elusen gofrestredig, rhif 1106321

Age Cymru Bae Abertawe – elusen gofrestredig, rhif 1140989

Mae croeso ichi gysylltu â ni os ydych chi eisiau gwybod mwy am sut y gall rhodd yn eich ewyllys gefnogi ein gwaith.

Ffoniwch **029 2043 1555**
neu e-bostiwch
**legacy@agecymru.org.uk**

**www.agecymru.org.uk/legacy**

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig: 1128436. Mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad ein swyddfa gofrestredig Llawr Isaf, Tŷ Mariners, Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD. ©Age Cymru 2019